Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn

# Polisi Iaith

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod Polisi** | **Pol_GCYGM_4C** |
| **Fersiwn** | **3** |
| **Dyddiad mabwysiadu / adolygiad diwethaf** | **Ebrill 2025** |
| **Dyddiad adolygiad nesaf** | **Ebrill 2028** |
| **Dogfen heb ei rheoli unwaith caiff ei hargraffu** | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Prif amcan Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn (GCYGM) yw annog gweithgarwch cerddorol yng Nghymru yn benodol trwy hyrwyddo celfyddyd mynegiannol a cherdd yng nghyd-destun dawns, drama, barddoniaeth, teledu a ffilm. Rydym yn cyflawni hyn trwy ddarparu gwersi cerdd offerynnol a lleisiol i oddeutu 5,000 o ddisgyblion gan tua 50 o diwtoriaid proffesiynol, gweinyddu ein cynllun benthyca offerynnau cerddorol a chydlynu'r ensembles rhanbarthol a sirol.

## 2. PWRPAS

2.1 Mae'r polisi yma wedi ei ddatblygu i amlinellu ein ymrwymiadau tuag at yr iaith Gymraeg ac i sicrhau eglurder a chysondeb wrth gyflwyno a gweinyddu ein gwasanaethau.

## 3. CWMPAS

3.1 Dylai'r polisi hwn gael ei ystyried yn greiddiol i holl weithgareddau GCYGM.

## 4. DATGANIAD POLISI

4.1 Mae'r iaith Gymraeg yn bwysig i ni, a rydym yn gweithredu'r egwyddor y dylai'r Gymraeg a Saesneg gael eu trin ar sail gyfartal wrth gyflwyno a gweinyddu ein gwasanaethau. Fel gwasanaeth rydym yn cefnogi egwyddorion Siarter Iaith Gymraeg Gwynedd a Môn ac yn cymryd camau i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein gweithgareddau.

## MANYLION POLISI

## 5. GWASANAETHAU

### 5.1 Gwersi cerddorol, offerynnol a lleisiol

5.1.1 Ein blaenoriaeth bob amser fydd sicrhau fod y gwersi a ddarparwn yn safonol, ble bo hynny yn ymarferol, a phan fo tiwtor cymwys ar gael, byddwn yn ceisio sicrhau fod y gwersi yn cael eu darparu yn unol â pholisi iaith yr ysgol.

5.1.2 Byddwn yn darparu tiwtoriaid cymwys a phrofiadol i gyflwyno gwersi ar bob achlysur, ystyriwn fod y gallu i siarad Cymraeg hefyd yn sgil bwysig, a byddwn hyd gorau ein gallu, yn ceisio sicrhau fod ein tiwtoriaid yn gallu'r Gymraeg.

### 5.2 Gwasanaeth benthyca offerynnau cerdd

5.2.1 Bydd y broses weinyddol ar gyfer y gwasanaeth benthyca yn ddwyieithog. Bydd unrhyw ffurflen neu gytundeb ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a bydd unrhyw gyfathrebu yn ymwneud â'r gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

### 5.3 Ensembles rhanbarthol

5.3.1 Ein blaenoriaeth bob amser fydd sicrhau fod yr ensembles rhanbarthol a gynhelir yn cael eu harwain gan unigolion cymwys a phroffesiynol, ble bo hynny yn ymarferol, a phan fo'r arweinydd yn siaradwr Cymraeg bydd gweithgareddau yn cael eu cynnal yn naturiol ddwyieithog.

5.3.2 Byddwn yn sicrhau fod siaradwr Cymraeg yn bresennol ym mhob ensemble rhanbarthol.

5.3.3 Bydd y broses weinyddol o drefnu ensemble rhanbarthol yn ddwyieithog, a bydd unrhyw ffurflen neu wybodaeth ysgrifenedig ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**6. CYSYLLTU**

6.1 Bydd GCYGM yn croesawu unrhyw gyswllt ysgrifenedig, gan gynnwys dros e-bost yn y Gymraeg. Pan fo unigolion yn cysylltu yn y Gymraeg byddwn yn darparu ateb, os oes angen, yn y Gymraeg.

6.2 Pan fyddwn yn cysylltu gyda nifer o unigolion ar yr un pryd, byddwn yn gwneud hynny yn ddwyieithog, oni bai ein bod yn gwybod eu bod oll yn siarad Cymraeg. Bryd hynny byddwn yn anfon yn y Gymraeg yn unig.

6.3 Pan fyddwn yn cysylltu gydag unigolyn am y tro cyntaf byddwn yn gwneud hynny yn ddwyieithog, oni bai ein bod yn gwybod eu bod yn siarad Cymraeg. Bryd hynny byddwn yn anfon yn y Gymraeg yn unig.

6.4 Byddwn yn ateb ein prif linell ffôn yn y Gymraeg a byddwn yn darparu gwasanaeth cyflawn yn y Gymraeg os mai hynny yw dymuniad y sawl sydd yn galw.

6.5 Wrth gyfathrebu gyda chyrff statudol yng Nghymru, byddwn yn gwneud hynny yn y Gymraeg, oni bai ein bod yn cysylltu gydag unigolyn o fewn y sefydliad y gwyddwn nad yw’n siaradwr Cymraeg.

**7. WYNEB CYHOEDDUS**

7.1 Bydd ein gwefan yn llwyr ddwyieithog a byddwn yn sicrhau fod y wybodaeth Gymraeg a’r Saesneg yn cael ei diweddaru ar yr un pryd.

7.2 Pan yn defnyddio gwefannau a chyfryngau cymdeithasol byddwn yn sicrhau fod hynny yn digwydd yn ddwyieithog, gyda’r Gymraeg yn cael ei arddangos yn gyntaf.

7.3 Bydd holl dogfennau cyhoeddus, deunyddiau hyrwyddo, taflenni gwybodaeth a rhaglenni cyhoeddus ar gael yn ddwyieithog ar bob achlysur.

**8. GWEINYDDIAETH FEWNOL**

8.1 Cymraeg fydd iaith weinyddol mewnol GCYGM gan gynnwys cyfarfodydd mewnol a chyfarfodydd Bwrdd.

8.2 Mae’r gallu i siarad Cymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer swyddi gweinyddu a rheoli GCYGM.

8.3 Bydd disgwyl i’r Cyfarwyddwr Creadigol ac unrhyw staff gweinyddol gynrychioli GCYGM ar bob achlysur posib drwy gyfrwng y Gymraeg - ac yn ddieithriad pan fydd offer cyfieithu ar gael neu fodd i siarad Cymraeg e.e. gweithdai Cymraeg eu hiaith.

**9. CWYNION**

9.1 Dylai unrhyw gwynion yn ymwneud â gweithrediad y polisi yma gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf i’r Cyfarwyddwr Creadigol a hynny trwy lythyr neu e-bost. Bydd y Cyfarwyddwr Creadigol yn gyfrifol am ymchwilio i’r gŵyn a chynnig ymateb cyflawn i’r achwynydd o fewn 10 diwrnod gwaith o’i dderbyn.

**10. MONITRO AC ADOLYGU**

10.1 Bydd gan y Cyfarwyddwr Creadigol gyfrifoldeb am weithredu’r polisi o ddydd i ddydd. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am ei fonitro, a bydd adroddiadau cyson yn cael eu cyflwyno iddynt yn cynnwys cofnod o unrhyw gwynion a dderbynnir.

10.2 Bydd y polisi yn cael ei adolygu bob tair mlynedd neu’n gynt petai’r Ymddiriedolwyr yn dymuno gwneud hynny.

Mabwysiadwyd gan Fwrdd Ymddiriedolwyr GCYGM ar y 10ed o Ebrill 2025